**Cyngor Cymdeithas LLANNERCH-Y-MEDD Community Council**

# POLISI IAITH CYNGOR CYMDEITHAS LLANNERCHYMEDD

1. Cymraeg yw iaith y Cyngor.

2. Cedwir y cofnodion yn Gymraeg.

3. Y Gymraeg a ddefnyddir ar gyfer unrhyw weinyddiaeth.

   (i) Bydd unrhyw ohebiaeth uniaith Saesneg a dderbynnir oddi wrth gyrff stadudol yng Nghymru yn cael ei chydnabod yn Gymraeg gan y Clerc gyda’r troad, neu mor fuan ag sy’n ymarferol, yn gofyn am fersiwn Gymraeg neu ddwyieithog o’r cyfryw lythyr ar fyrder.

   (ii) Dymuniad y Cyngor yw gohebu yn Gymraeg ag unrhyw sefydliad arall neu unrhyw gwmni sydd â phencadlys yng Nghymru. Bydd y Cyngor yn ceisio gohebu â hwy yn Gymraeg cyn defnyddio’r Saesneg. Nodir dymuniad y Cyngor i ohebu yn Gymraeg ar unrhyw ohebiaeth Saesneg.

   (iii) Cadarnheir arferiad y Cyngor o ohebu ag etholwyr unigol yn Gymraeg gan ateb llythyrau Saesneg yn Saesneg.

   (iv) Pan fyddwn yn defnyddio dwy neu ragor o ieithoedd, bydd blaenoriaeth bendant i’r Gymraeg. Os oes amheuaeth ynghylch cyfieithiad cymerir y fersiwn Cymraeg fel yr un cywir.

   v) Bydd y Cyngor yn darparu gwasanaeth cyfieithu pe cyfyd angen i hwyluso trafodaethau mewn cyfarfodydd mewn achosion neilltuol ac i ymateb i geisiadau am gofnodion drwy gyfrwng Saesneg.

4. Os bydd y Cyngor yn hysbysebu yn y wasg, bydd yr hysbysebion yn Gymraeg neu yn ddwyieithog, gyda blaenoriaeth bendant i’r Gymraeg.

5. Byddai’n ddymunol i unrhyw gytundeb ar ran y Cyngor fod yn y Gymraeg os yw’n bosibl.

6. Os bydd y Cyngor yn cyflogi unrhyw weithiwr, bydd y Gymraeg yn gymhwyster manteisiol.

7. Bydd y Cyngor yn ddieithriad yn rhoi ystyriaeth i effeithiau ieithyddol a diwylliannol ar unrhyw gais cynllunio. Bydd y Cyngor yn ystyried niwed i'r iaith yn ddigon o reswm ynddo'i hun i argymell gwrthod unrhyw gais cynllunio.

8. Bydd y Cyngor yn argymell i unrhyw gorff sy'n ceisio nawdd gennym, ei fod yn mabwysiadu polisi iaith sy'n rhoi blaenoriaeth bendant i'r Gymraeg.

*Mabwysiadwyd: Mawrth 2016 – fersiwn 0.1*

*Adolygwyd: 6 Ebrill 2023 – fersiwn 0.2*